**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**CYHOEDDIAD O FWRIAD I BEIDIO Â PHARATOI DATGANIAD AMGYLCHEDDOL RHEOLIAD 5 RHEOLIADAU ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL (GWAITH GWELLA DRAENIO TIR) 1999**

**GWAITH GWELLA MEWN PERTHYNAS Â CYNLLUN LLINIARU LLIFOGYDD STRYD VICTOR**

**MAE CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** ("Y Cyngor") **YN HYSBYSU** fel a ganlyn yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999:

1. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwaith gwella draenio tir ar y cwrs dŵr cyffredin di-enw sy'n tarddu i'r gorllewin o Stryd Victor yn Aberpennar ac yn cludo i'w gollyngfa yn yr Afon Cynon. Bwriad y gwaith yw i ailsefydlu'r rhwydweithiau cwlfert dŵr cyffredin sydd wedi'u ceuffos yn strwythurol try ail-leinio mewnol a dulliau atgyweirio. Bydd hyn yn lleihau'r risg o fethiant strwythurol i'r rhwydweithiau cwlfert dŵr cyffredin presennol. Bydd y gwelliannau yma'n lleihau'r perygl o lifogydd glaw mewn ardal lle yr ystyrir bod risg uchel o lifogydd.

2. Dyw'r Cyngor ddim yn bwriadu paratoi datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r gwaith gwella arfaethedig. Gan gyfeirio at Atodlen 2 o Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999, ni ystyrir y bydd y gwaith arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd oherwydd nodweddion y gwaith gwella, sensitifrwydd amgylcheddol yr ardaloedd daearyddol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaith gwella, a math a nodweddion yr effaith bosibl ar yr amgylchedd yn sgil y gwelliant.

3. Bydd y mesurau lliniaru ac ataliol canlynol yn cael eu gweithredu i atal yr hyn a allai fer arall cael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd:

   - Rheoli adeiladu i liniaru effeithiau sŵn, dirgryniad a llwch;

   - Rheoli adeiladu i liniaru'r amser y mae gwaith yn gweithredu o fewn Cwrs Dŵr Cyffredin;

   - Rheoli Adeiladu i liniaru'r potensial bod llygredd yn effeithio ar y rhwydweithiau cwrs dŵr arferol;

   - Cydymffurfio â gofynion statudol ychwanegol sy'n ymwneud â Chaniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin (Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir 1991) a Chymeradwyo Draenio Cynaliadwy (Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010).

4. Mae disgrifiad o leoliad, natur a maint y gwaith gwella yn Rhan I o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma.

5. Os yw rhywun yn dymuno gwneud sylwadau ysgrifenedig am effeithiau amgylcheddol tebygol y gwaith gwella arfaethedig, mae modd iddo wneud hynny drwy eu hanfon at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng-flaen yn 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd, CF37 1DU neu drwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rhondda-cynon-taf.gov.uk o fewn 30 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad yma.

6. Mae modd cael yr wybodaeth ychwanegol am y gwaith gwella yn Rhan II o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen yn Nhŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU trwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

ATODLEN

Rhan I – manylion am y gwaith gwella


Lleoliad y gwaith gwella: Stryd Victor (OSGR 304428, 198954), Stryd Eva (OSGR 304525, 198940), Stryd Stream (OSGR 304629, 198907) a Stryd Uchaf (OSGR 304635, 199008), Stryd Pryce (OSGR 304659, 199174) yn Aberpennar.

Natur a maint y gwaith gwella: Yr holl waith parhaol a'r gwaith dros dro sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

i. Atgyweirio llwybr strwythurol a gwaith growtio
ii. Gwaith ail-leinio strwythurol
iii. Gwaith adsefydlu twll archwilio

Rhan II – Gwybodaeth ychwanegol

Mae lleoliadau'r gwaith arfaethedig i'w gweld ar y llun atodedig.



Dyddiedig y 15fed o Orffennaf 2024
Andrew Wilkins
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol